# Cydweithio i Gefnogi Atebolrwydd a Gwelliant

## Cytundeb Strategol rhwng

Archwilio Cymru (AC)

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Estyn

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)

**Ionawr 2026**

## Cynnwys


Rhagair 3

Gweledigaeth ac egwyddorion sylfaenol 4

Adeiladu ar sylfeini cadarn 5

Ein hamcanion allweddol i gydweithio’n well 6

Rhoi hyn ar waith 7

## Rhagair

Er bod gennym swyddogaethau gwahanol iawn i'n gilydd, mae gennym nodau cytûn, wedi'u tanategu gan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol, i gefnogi canlyniadau gwell i bobl dros y tymor hwy. Rydym yn ceisio gwarchod eu buddiannau bob tro trwy adrodd yn ddiduedd ar y weinyddiaeth a'r gwasanaethau cyhoeddus sy'n disgyn o fewn ein cylchoedd gwaith.

Trwy gydweithio â'n gilydd yn effeithiol, gallwn gynyddu'r effaith fuddiol ar wasanaethau cyhoeddus. Mae gennym hanes hir o gydweithio â'n gilydd fel Arolygiaeth Cymru ac rydym wedi datblygu ystod o ymagweddau cydweithredol tuag at ein gwaith. Trwy barhau i ddatblygu'r ymagweddau hyn, gan ganolbwyntio ar rannu gwybodaeth a chydlynu cynllunio a chyflawni ein rhaglenni gwaith unigol, byddwn yn ychwanegu hyd yn oed mwy o werth at ein gweithgareddau.

Felly, mae'n bleser gennym gyflwyno'r cytundeb strategol cyfredol hwn rhwng ein pedwar sefydliad, sy'n amlinellu sut byddwn yn datblygu ein trefniadau gwaith cydweithredol ymhellach.

Gillian Baranski, Prif Weithredwr AGC

Owen Evans, Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Alun Jones, Prif Weithredwr AGIC

Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru

## Adeiladu ar sylfeini cadarn

**Ein gweledigaeth gytûn yw y bydd ein gwaith arolygu, archwilio a rheoleiddio yn symbyliad grymus i wella gwasanaethau cyhoeddus o ran yr economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, yn ogystal â galluogi craffu ac atebolrwydd priodol. Mae hyn yn cynnwys cefnogi cyflawni nodau llesiant Cymru. Bydd cyflawni'r weledigaeth hon yn cael ei helpu gan fframwaith clir ac effeithiol ar gyfer ein gwaith cydweithredol.**

Bydd sawl egwyddor allweddol yn tanategu'r gwaith a wnawn ar y cyd:

- byddwn yn ystyrlon o swyddogaethau statudol ein gilydd a'r gwaith rydym ni, fel sefydliadau unigol, yn ei wneud i'w cyflawni;
- byddwn yn defnyddio ein cymwyseddau cyfunol i ystyried a yw systemau a gwasanaethau wedi'u hintegreiddio'n briodol i gyflawni gwasanaethau cydgysylltiedig a gwerth am arian;
- byddwn yn parchu'r dulliau unigol mae pob sefydliad yn eu mabwysiadu ac yn ceisio dysgu oddi wrth ein gilydd, lle bynnag y bo hynny'n bosibl;
- byddwn yn ceisio dibynnu'n briodol ar ganfyddiadau ein gilydd er mwyn osgoi'r angen i ailadrodd neu ddyblygu gwaith;
- byddwn yn symud tuag at fodelau cydweithio agosach, lle bo hynny'n briodol, ac yn ymrwymo'r adnoddau a'r amser angenrheidiol;
- byddwn yn gweithredu ar gontinwwm o gydweithio sy'n briodol i'r amgylchiadau, sy'n amrywio o rwydweithio syml i weithio'n gwbl integredig;
- byddwn yn parhau i graffu ar y trefniadau cydweithio er mwyn sicrhau eu bod yn gymesur, yn briodol ac yn ychwanegu gwerth.

Mae trefniadau arolygu dwyochrog amrywiol a mentrau wedi creu sylfaen gadarn ar gyfer cyflawni gwaith adolygu allanol ar y cyd i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus cysylltiedig ac integredig.

Maent wedi arwain at greu offerynnau a phrosesau ar y cyd i gefnogi ein gwaith gyda'n gilydd a meithrin perthnasoedd gweithio cadarnhaol ymhlith ein staff gweithredol, sy'n gydnaws â chyflawni'n llwyddiannus.

Hoffem barhau i adeiladu ar y sylfeini cadarn hyn i wella ein trefniadau cydweithredu ymhellach. Rydym yn cydnabod y bydd hyn yn cynnwys mynd i'r afael â rhai materion a fu'n heriol yn y gorffennol. Mae'r rhain yn cynnwys alinio ein cylchoedd cynllunio busnes unigol, lle bo hynny'n bosibl[1], i helpu i raglennu'n gydweithredol yn well a gwerthfawrogi'r safbwyntiau a'r ymagweddau gwahanol rydym yn dod â nhw'n unigol i weithio o fewn, ac ar draws, sectorau gwahanol.

Gallai'r trefniadau sydd wedi'u hamlinellu yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 gefnogi ein hymdrechion i gydlynu ein rhaglenni gwaith mewn llywodraeth leol. Rydym yn ceisio cefnogi ymagwedd systemau cyfan gydlynus tuag at reoli perfformiad a chraffu ar brif gynghorau. Bydd strwythurau symlach o fewn y GIG yn helpu hefyd trwy ei gwneud yn haws i gydlynu cynllunio ein gwaith a rhannu gwybodaeth yn briodol.

[1] Caiff cylchoedd cynllunio eu pennu'n rhannol gan statud, felly ni ellir eu halinio'n gyfangwbl.

## Ein hamcanion allweddol i gydweithio'n well

Trwy adeiladu ar y sylfeini cadarn a amlinellwyd yn yr adran flaenorol, rydym wedi nodi sawl amcan allweddol a fydd yn fframio ein hymagwedd tuag at gydweithio a chydweithredu. Mae'r rhain wedi'u hamlinellu isod.

### Amcan Allweddol 1

Mae ein gwaith cydweithredol wedi'u llywio gan ein cydweledigaeth a'u cefnogi gan gytundebau strategol a phrotocolau gweithredol, yn ôl yr angen.

### Amcan Allweddol 2

Byddwn yn datblygu'r ymagweddau tuag at rannu gwybodaeth a hysbysrwydd rhwng ein sefydliadau unigol i lywio ein rhaglenni gwaith a helpu sicrhau y caiff gwybodaeth ei rhannu'n gyfreithlon, yn weithredol ac yn brydlon.

### Amcan Allweddol 3

Caiff ein gweithgareddau cynllunio a rhaglennu unigol eu cydlynu'n briodol, gyda'r bwriad o sicrhau rhaglenni gwaith cymesur sy'n osgoi dyblygu diangen ac yn sicrhau y caiff risgiau a phryderon allweddol eu harchwilio.

### Amcan Allweddol 4

Byddwn yn nodi cyfleoedd priodol i ddod â'r wybodaeth a'r deallusrwydd sydd gan bob un ohonom am wasanaethau cyhoeddus at ei gilydd ac yn adrodd ar hyn mewn ffyrdd sy'n cynorthwyo i wella gwasanaethau, llywio llunio polisïau a chraffu cenedlaethol a chryfhau atebolrwydd cyhoeddus.

### Amcan Allweddol 5

Byddwn yn monitro'r cynnydd rydym yn ei wneud o ran cydweithio ac yn adrodd ar hyn yn agored ac yn dryloyw i randdeiliaid allweddol trwy ein cynlluniau a'n hadroddiadau blynyddol unigol.

## Rhoi hyn ar waith

Rydym yn cydnabod nad yw cydweithio llwyddiannus yn digwydd ar ei ben ei hun. Mae angen i ymrwymiadau strategol, fel y rhai sydd wedi'u hamlinellu yn y ddogfen hon, gael eu hategu trwy nodi adnoddau i symud y gwaith yn ei flaen, a thrwy atebolrwydd clir ar gyfer cydweithio ym mhob sefydliad.

Pan fyddwn yn cynllunio ac yn gweithio'n gydweithredol, byddwn yn cytuno ar ein blaenoriaethau a'n rhaglen waith trwy'r grwpiau strategol canlynol.

**Grŵp Penaethiaid Arolygu**

Mae'r Grŵp Penaethiaid Arolygu yn cynnwys pennaeth pob sefydliad a'i ddirprwy enwebedig, sy'n goruchwylio cydweithio. Bydd y grŵp yn cyfarfod 3 gwaith y flwyddyn a bydd y cyfrifoldeb am gadeirio a bod yn ysgrifennydd yn cael ei gylchdroi ym mhob cyfarfod.

**Grŵp Cydlynu Strategol**

Mae'r Grŵp Cydlynu Strategol yn cynnwys y dirprwyon enwebedig o bob sefydliad sy'n goruchwylio cydweithio. Bydd y grŵp yn cyfarfod 6 gwaith y flwyddyn i roi ein hamcanion strategol ar waith, gan gynnwys aelodau staff eraill ar draws ein sefydliadau yn ôl yr angen. Bydd y grŵp yn adrodd yn flynyddol i'r Grŵp Pennaethiaid Arolygu am unrhyw waith cydweithredol a wneir a'i effaith.